

# Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau – cynllun gweithredu ar gyfer Cymru

## Adroddiad Blynyddol Cyntaf: Blwyddyn Academaidd 2015/16

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

*Clawr blaen: Ysgol Gynradd* Durand

# Yn yr adroddiad hwn …


**Rhagair Ysgrifenyddion y Cabinet** 03

**Y Rhaglen Dysgu Creadigol** 04

**Y cyflawniadau ar gipolwg** 05

**Ein nodau ar gyfer 2016/17** 06

**Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol** 07
**Yr ysgolion sy'n cymryd rhan**

**Cynnig y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan** 10
Rhwydweithiau Rhanbarthol ar gyfer y Celfyddydau ac Addysg 11
Cronfa Profi'r Celfyddydau 11
Llwybrau Datblygu / Gyrfa Cymru 11

**Yr hyn rydym yn ei weld** 13

**Lledaenu'r Newyddion** 15

**Rheoli'r Rhaglen** 15

**Atodiad** 16
Astudiaethau Achos Ysgolion Creadigol Arweiniol 16
Grantiau Ewch i Weld 26
Grantiau Cydweithio Creadigol 29
Ysgolion sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol 31




Dysgwyr yn Ysgol Gynradd y Rhws (Bro Morgannwg, rhanbarth Consortiwm Canolbarth y De)
(llun llonydd o fideo gan Glen Biseker, Winding Snake)

Ewch i weld ein **Parth Dysgu Creadigol** ar Hwb, y canolbwynt digidol canolog i'r rhaglen.

# Rhagair Ysgrifenyddion y Cabinet

Mae creadigrwydd yn llunio pethau newydd o ddim, yn gwella ar y gorau, ac yn un o'r offer mwyaf sydd gennym i gyflawni potensial ac annog mynegiant. Mae'n rhoi inni le i ddilyn yr hyn sy'n tanio ein brwdfrydedd, i arbrofi, i roi cynnig arni, i fethu efallai, ond i ailgodi bob tro, myfyrio a rhoi cynnig arni eto.


Dyna pam nad yw'r cwricwlwm newydd i Gymru, a nodir yn yr adroddiad Dyfodol Llwyddiannus, yn trin sgiliau creadigol fel moeth neu elfen ychwanegol, ond yn eu gwneud yn greiddiol i gwricwlwm bywiog, eang ac amrywiol. Yn wir, rydym eisiau i'n holl ddysgwyr ddod allan o'n system addysg yn Gyfranwyr Mentrus, Creadigol, a all nid yn unig fanteisio ar fyd cyfoethog o gyfryngau a diwylliant, ond hefyd gael boddhad a llesiant o fynegiant gweithredol.

Cynllun Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yw ein cam cyntaf i wireddu'r ddelfryd hon i'n pobl ifanc. Wrth inni ysgrifennu hyn, rydym yn falch bod cannoedd o ysgolion ledled Cymru eisoes yn cael budd o'r arferion dysgu ac addysgu creadigol sydd wedi'u datblygu fel rhan o elfen Ysgolion Creadigol Arweiniol y cynllun, a bod llawer mwy yn paratoi i ymuno yn y flwyddyn nesaf. Trwy'r Cynnig Cymru Gyfan, mae ysgolion a sefydliadau celfyddydol, diwylliannol a threftadaeth yn meithrin perthnasoedd cryf a pharhaol er budd ei gilydd, ond yn bwysicach, er budd pobl ifanc ledled Cymru.

Ochr yn ochr â diwygiadau ym maes addysg, mae *'Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru'* yn ail-gadarnhau ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i gynorthwyo ein cymunedau i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a phrofiadau diwylliannol fydd yn eu hysbrydoli. Mae'r weledigaeth gyfannol hon ar gyfer diwylliant yng Nghymru'n cydnabod grym trawsnewidiol a chydlynol y celfyddydau, a'r ffordd y mae meithrin creadigrwydd pobl ifanc yn helpu i ddatblygu eu hyder, eu sgiliau a'u cyflogadwyedd.

Mae'r adroddiad hwn ar flwyddyn gyntaf cynllun Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau yn dangos cyflawniadau'r sector addysg a'r sector creadigol wrth iddynt gydymdrechu i hybu buddion academaidd ac emosiynol addysg wedi'i chyfoethogi gan y celfyddydau. Fodd bynnag, gwyddom fod llawer inni i gyd ei wneud o hyd i fodloni'r disgwyliadau uchel a nodir yng ngweledigaeth yr Athro Donaldson ar gyfer cwricwlwm newydd, ac yn *'Golau yn y Gwyll'.* Ein gobaith yw y teimlwch chi, fel y teimlwn ninnau, fod y cynllun hwn yn cynnig cyfle gwych i bawb yng Nghymru sydd eisiau gwell cyfleoedd bywyd i'n pobl ifanc, i fod yn greadigol.





**Kirsty Williams AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg





**Ken Skates AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

# Y Rhaglen Dysgu Creadigol

Ym mis Medi 2013 cyhoeddwyd adroddiad annibynnol ar ddiwedd adolygiad blwyddyn o hyd o'r celfyddydau ac addysg yn ysgolion Cymru. Cafodd yr adroddiad ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru a'i ysgrifennu gan yr Athro Dai Smith.

Derbyniodd Llywodraeth Cymru holl argymhellion yr adroddiad a chyhoeddwyd *Dysgu Creadigol drwy'r celfyddydau – cynllun gweithredu ar gyfer Cymru* ym mis Mawrth 2015.

Mae'r cynllun yn nodi cynllun gweithgarwch helaeth wedi'i gyd-ariannu gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. Wrth ei lansio, ail-ategodd Gweinidogion Cymru'r rhan bwysig mae'r celfyddydau a chreadigrwydd yn ei chwarae wrth helpu i gryfhau a chefnogi dysgu yn ein hysgolion.

Mae hon yn rhaglen feiddgar ac uchelgeisiol. Mae'n ymwneud â newid a gwelliant ar draws ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig Cymru. Wrth wraidd y cynllun mae'r gred y dylai addysg wedi'i chyfoethogi gan y celfyddydau fod yn ganolog i holl brofiad ysgol pob dysgwr er mwyn meithrin gallu plant yng Nghymru i ddysgu.

Mae dysgu creadigol drwy'r celfyddydau yn darparu cyfle i'r holl ysgolion yng Nghymru ddechrau ar y broses o weithio tuag at integreiddio elfennau creadigol pedwar diben  Cwricwlwm i Gymru: Cwricwlwm am oes. Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio i helpu ysgolion i ddatblygu eu gallu i gyflenwi Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol a datblygu sgiliau creadigol ar draws y cwricwlwm i gefnogi'r pedwar diben ac yn benodol datblygu dysgwyr uchelgeisiol, galluog a hyderus, sydd hefyd yn gyfranwyr mentrus a chreadigol sydd wedi'u paratoi gyda'r sgiliau ar gyfer bywyd.

Gyda'i gilydd, mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru wedi addo £20 miliwn i gefnogi'r cynllun dros gyfnod o bum mlynedd. Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar ein cynnydd ym Mlwyddyn 1.

## Cyflawniadau ar gyfer 2015/16

- Lansio dau gylch o Ysgolion Creadigol Arweiniol a dyrannu cyllid ar gyfer gweithgarwch creadigol ym mhob ysgol ✓
- Dewis a hyfforddi o leiaf 150 o Asiantau Creadigol ✓
- Lansio'r Parth Dysgu Creadigol ar-lein ar Hwb – platfform dysgu digidol i ysgolion Cymru gyfan ✓
- Darparu cyfleoedd DPP i Athrawon, Cydgysylltwyr Ysgolion ac Ymarferwyr Creadigol ✓
- Sefydlu pedwar Rhwydwaith Rhanbarthol ar gyfer y Celfyddydau ac Addysg ar draws Cymrugol ✓
- Lansio'r gronfa Profi'r Celfyddydau: Ewch i Weld a Chydweithio Creadigol ✓
- Comisiynu gwerthusiad annibynnol o'r rhaglen ✓
- Recriwtio ysgolion i gymryd rhan yn ymchwil ysgolion rhyngwladol y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ✓
- Cynorthwyo ysgolion i weithio tuag at yr argymhellion o adroddiadau Estyn ar gyfer strategaethau arfer orau mewn addysgu a dysgu yn y celfyddydau creadigol (cynradd) ac arfer orau mewn addysgu yn y celfyddydau creadigol yng nghyfnodau allweddol 3 a 4. ✓

## Yn ystod 2016-17, byddwn yn

Lansio'r trydydd cylch – yr olaf – o'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol

Parhau i gydweithio â'r 279 o Ysgolion Creadigol Arweiniol o'r cylch cyntaf a'r ail gylch

Darparu hyfforddiant i Asiantau Creadigol er mwyn diwallu anghenion y genhedlaeth olaf o Ysgolion Creadigol Arweiniol

Darparu hyfforddiant i Athrawon a Chydgysylltwyr Ysgolion ein cohort olaf o Ysgolion Creadigol Arweiniol, ynghyd â hyfforddiant i Ymarferwyr Creadigol

Cynorthwyo'r Rhwydweithiau Rhanbarthol ar gyfer y Celfyddydau ac Addysg i ddarparu cyfleoedd cyffrous o ran datblygiad proffesiynol a rhwydweithio

Recriwtio hyd at 40 Hyrwyddwr y Celfyddydau newydd

Cynorthwyo rhyw 200 o ysgolion drwy'r cynllun ariannu Ewch i Weld

Cyhoeddi'r adroddiad gwerthuso annibynnol cyntaf

Parhau i ddatblygu cynnwys y Parth Dysgu Creadigol, a hyrwyddo'r defnydd ohono

**Mae rhaglen Ysgolion Creadigol Arweiniol yn meithrin ac yn datblygu creadigrwydd dysgwyr fel eu bod yn cyflawni'u potensial, yn tyfu'n unigolion cyflawn ac yn cael eu paratoi â'r sgiliau ar gyfer bywyd. Mae codi eu hyder mewn Llythrennedd a Rhifedd yn ganolog i hyn.**

Mae rhaglen Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cynorthwyo ysgolion i ddatblygu eu harferion yn unol â phedwar diben Cwricwlwm i Gymru: Cwricwlwm am oes; gan ddatblygu dysgwyr uchelgeisiol, galluog a hyderus, sydd hefyd yn gyfranwyr mentrus a chreadigol sydd wedi'u paratoi â'r sgiliau ar gyfer bywyd.

Mae'r cynllun yn hyrwyddo ffyrdd newydd o weithio mewn ysgolion gan ddefnyddio rhaglenni dysgu arloesol a phwrpasol sydd wedi'u cynllunio'n benodol i fod yn ymarferol ac yn berthnasol i ofynion cwricwlaidd go iawn ysgolion. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio'n benodol ar fynd i'r afael â rhwystrau sy'n atal ymgysylltu a gwella.

Mae ysgolion yn cael eu cynnwys mewn rhaglen hirdymor sy'n eu cynorthwyo i:

- weithio gydag Ymarferwyr Creadigol yn eu hystafelloedd dosbarth i weddnewid dysgu ac addysgu;
- dyfeisio a gweithredu prosiect neu raglen waith sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau datblygu'r ysgol unigol;
- dod o hyd i ymagweddau creadigol at lythrennedd, rhifedd a'r gwaith o leihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion;
- gwreiddio newidiadau mewn arferion addysgu gan arwain at effaith gynaliadwy;
- gwneud y celfyddydau a chreadigrwydd yn ganolog i fywyd yr ysgol;
- cael eu cydnabod am eu hymrwymiad i wella drwy ddysgu ac addysgu creadigol a'r celfyddydau; a
- datblygu arferion sy'n cyfrannu at eu paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd, fel y'i nodir yn adroddiad yr Athro Donaldson, Dyfodol Llwyddiannus.

Mae'r technegau dysgu creadigol mae'r ysgolion yn eu datblygu yn eu helpu i fynd i'r afael â materion allweddol a nodir drwy eu cynlluniau datblygu ysgol. Disgwylir i'r prosiectau gynnwys elfen o lythrennedd, rhifedd, gwella cyrhaeddiad ar draws y cwricwlwm, neu fynd i'r afael â thangyflawniad ymysg disgyblion sy'n profi amddifadedd.

**Mae ffilm fer animeiddiedig wedi cael ei chreu i esbonio'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol ac i helpu i gael cyhoeddusrwydd iddo**

Mae athrawon a dysgwyr yn gweithio gydag ymarferwyr creadigol mewn dwy ffordd. Mae pob ysgol neu grŵp o ysgolion sy'n cael grant yn gweithio ar ddatblygu a goruchwylio'r prosiect gydag Asiant Creadigol. Ei rôl yw helpu ysgolion i ganfod a nodi'r anawsterau penodol maent yn eu hwynebu, ac i ddod o hyd i atebion creadigol priodol. Caiff y prosiectau eu cyflawni wedyn mewn ysgolion gan Ymarferwyr Creadigol sydd wedi'u hyfforddi a'u dewis yn arbennig. Mae'r holl Asiantau Creadigol, athrawon ac Ymarferwyr Creadigol yn dilyn rhaglenni hyfforddiant a datblygiad dwys er mwyn datblygu eu gwybodaeth a'u harferion o ran technegau dysgu creadigol.

Rydym bellach yn cydweithio â 120 o Asiantau Creadigol ar brosiectau Cylch 1 a Chylch 2.

## Ar gipolwg



**279**

o Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cael eu recriwitio dros y ddau gyfnod cyntaf

**256**

Nifer y prosiectau dan arweiniad y celfyddydau creadigol mewn ysgolion

**£1.92**

Gwerth y buddsoddiad yn ein cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol

**Nifer y disgyblion sy'n manteisio ar gyfleoedd dysgu creadigol yn yr ysgol ym Mlwyddyn 1**

**4,120**



**600**

o ddiwrnodau hyfforddi i 300 o athrawon, cydgysylltwyr ysgol a gweithwyr creadigol proffesiynol

**119**

o artistiaid a gweithwyr creadigol proffesiynol sy'n gweithio mewn Ysgolion Creadigol Arweiniol

*"… rydym yn gweld y prosiect hwn fel man cychwyn i newid arferion, addysgeg a diwylliant yn ein hysgol. Mae gennym uwch dîm rheoli cefnogol sy'n sylweddoli pa mor bwysig yw dysgu creadigol. Yn y flwyddyn academaidd nesaf bydd pob dosbarth yn ymgymryd â phrosiect creadigol pob hanner tymor, gan dargedu sgiliau meddwl drwy ymagwedd thematig - boed ysgol gyfan neu ddosbarth-benodol, gyda phwyslais cryf ar ddysgu a myfyrio dan arweiniad disgyblion."*

**Ysgol Gynradd Gilwern** (Y Fenni, rhanbarth Ein Rhanbarth ar Waith)
Gwerthusiad o'i blwyddyn gyntaf o weithredu fel Ysgol Greadigol Arweiniol

## Cynnig y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan

Nod **Cynnig y Celfyddydau ac Addysg Cymru Gyfan** yw gwella maint ac ansawdd y profiadau celfyddydol, diwylliannol a threftadaeth sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru. Caiff ysgolion a sefydliadau celfyddydol eu hannog i feithrin perthnasoedd cynaliadwy sydd o fudd i bawb ac a fydd yn eu paratoi ar gyfer yr ymagwedd gydweithredol at addysg a nodir yn y cwricwlwm newydd. Bydd hyn yn bwydo i waith yr ysgolion arloesi wrth iddynt ddatblygu Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol.

Mae'r cynnig yn cynnwys dwy ffrwd gyllido; grant **Ewch i Weld** a grant **Cydweithio Creadigol**, sy'n cynorthwyo ysgolion i ymgysylltu â phrofiadau celfyddydol a chreadigol. Mae hefyd yn cynnwys gweithgarwch y pedwar Rhwydwaith Rhanbarthol ar gyfer y Celfyddydau ac Addysg, sy'n hwyluso'r gwaith o rannu arfer orau ac yn darparu cyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus ar sail creadigrwydd i'r gweithlu addysg a chreadigol.

*Gweld a phrofi gweithgarwch celfyddydol o ansawdd da yw un o'r ffyrdd gorau o gyffroi ac ysbrydoli pobl ifanc.*

### Cipolwg

**4** Nifer y Rhwydweithiau Rhanbarthol ar gyfer y Celfyddydau ac Addysg sydd wedi'u lansio

**£1.5m** Gwerth y buddsoddiad yn y Cynnig Celfyddydau ac Addysg ehangach

**2** Nifer yr adolygiadau arfer orau mae Estyn wedi'u cwblhau

**1** Parth Dysgu Creadigol wedi'i lansio

**60** *Nifer y grantiau Ewch i Weld a ddyfarnwyd* (hyd at fis Hydref 2016)

**20** Nifer y grantiau Cydweithio Creadigol ar raddfa fawr a ddyfarnwyd (hyd at fis Hydref 2016)

**Y Gronfa Profi'r Celfyddydau**

Ym mis Mawrth 2016 lansiwyd dwy ffrwd ein Cronfa Profi'r Celfyddydau, sef 'Ewch i Weld' a 'Cydweithio Creadigol'. Cyhoeddwyd canllawiau a rhagor o wybodaeth ar wefan Cyngor Celfyddydau Cymru

**Ewch i Weld**

Mae'r grant hwn yn cynorthwyo ysgolion i oresgyn y rhwystrau a all eu hatal rhag cael profiadau celfyddydol a diwylliannol, fel cost tocynnau a chludiant. Gall ysgolion wneud cais am hyd at £1,000 unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn, a byddant yn cael penderfyniad cyn pen 6 wythnos. Hyd ddiwedd mis Hydref 2016, rydym wedi dyfarnu 60 o grantiau.

**Cydweithio Creadigol**

Caiff ysgolion sydd eisiau gweithio mewn ffordd gynaliadwy gyda sefydliadau neu unigolion ar draws y sector diwylliannol a chreadigol wneud cais am hyd at £25,000 i ariannu prosiect celfyddydol arloesol. Anogir ysgolion i feddwl am gynigion sy'n gyffrous ac yn wirioneddol gydweithredol ac sy'n cynnig profiadau newydd i ddysgwyr. Dyfarnwyd y 10 grant cyntaf ym mis Gorffennaf 2015 am weithgarwch i ddechrau yn ystod blwyddyn academaidd 2016/17.

**Rhwydweithiau Rhanbarthol ar gyfer y Celfyddydau ac Addysg**

Sefydlwyd pedwar rhwydwaith rhanbarthol i gynorthwyo'r sectorau addysg a chreadigol yn y gwaith o ddatblygu cydweledigaeth o system addysg sy'n cael ei chyfoethogi gan y celfyddydau, gan baratoi'r ddau sector ar gyfer y gwaith o weithredu Cwricwlwm i Gymru: Cwricwlwm am Oes.

Mae'r Rhwydweithiau wedi lansio rhaglen **Hyrwyddwyr y Celfyddydau**, a fydd yn adnabod athrawon rhagorol yn y pynciau celfyddydol ac ymarferwyr celfyddydol, a fydd yn ysbrydoli ac yn cynorthwyo eu cydweithwyr.

Mae ffiniau'r Rhwydweithiau Rhanbarthol ar gyfer y Celfyddydau ac Addysg yn cydredeg â ffiniau'r pedwar Consortiwm Addysg Rhanbarthol. Y pedwar rhanbarth yw:

- **Rhanbarth 1** (Gogledd Cymru): Cyngor Sir Fflint sy'n arwain Edau
- **Rhanbarth 2** (Gorllewin a Chanolbarth Cymru): Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant sy'n arwain Nawr
- **Rhanbarth 3** (De-ddwyrain Cymru): Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sy'n arwain Rhwydwaith y Celfyddydau ac Addysg De-ddwyrain Cymru
- **Rhanbarth 4** (Canolbarth y De): Actifyddion Artistig sy'n arwain A2: Clymu

Mae gan bob rhanbarth Grŵp Llywio sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau celfyddydol ac addysgol. Dyfarnwyd cyllid i'r rhwydweithiau am gyfnod cychwynnol o 15 mis (hyd at fis Mawrth 2017) a byddwn yn monitro eu gweithgarwch dros y cyfnod hwn. Mae'r Rhwydweithiau'n cyfarfod yn rheolaidd fel y gall y cydgysylltwyr rannu gwybodaeth ac osgoi dyblygu gwaith.

**Llwybrau Datblygu / Gyrfaoedd**

Un rhan bwysig o'r rhaglen yw ein gwaith ar lwybrau datblygu yn y diwydiannau diwylliannol a chreadigol. Mae Gyrfa Cymru'n darparu cyngor a gwybodaeth ar gyfleoedd a llwybrau gyrfa i'r sectorau hyn.

Mae Gyrfa Cymru wedi bod wrthi'n ymgysylltu â'r sector creadigol. Canlyniad y gwaith hwn oedd cyhoeddi Golwg ar Ddiwydiannau Creadigol.

Gan adeiladu ar y gwaith hwn, rydym hefyd yn bwriadu gofyn i Gyrfa Cymru ddatblygu rhwydwaith gyda sefydliadau diwylliannol i helpu i hyrwyddo gyrfaoedd yn sectorau'r celfyddydau a'r diwydiannau creadigol.

Aethom i ddigwyddiadau gyrfaoedd a sgiliau i Gymru, SkillsCymru, gan arddangos y cyfleoedd sydd ar gael o ran gyrfaoedd yn sectorau'r celfyddydau a'r diwydiannau creadigol. Cynhaliwyd digwyddiadau SkillsCymru ar 5 a 6 Hydref yn Llandudno, ac ar 12 a 13 Hydref yng Nghaerdydd. Gyda'i gilydd, denodd y digwyddiadau hyn ryw 10,000 o bobl ifanc. Yn y digwyddiadau, dysgodd pobl ifanc am yr amrywiaeth enfawr o yrfaoedd, hyfforddiant a chyngor sydd ar gael yng Nghymru.

Rhoddodd y digwyddiadau hyn gyfle inni gydweithio gydag amrywiaeth fawr o bobl sy'n gweithio yn y sectorau celfyddydol a chreadigol. Rhoesom ysbrydoliaeth ac ysgogiad i bobl ifanc, gan roi iddynt gyngor a chyfarwyddyd priodol ar sut i ddilyn yr yrfa o'u dewis.

**Pecynnau dysgu: 'Lleihau effeithiau tlodi drwy'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth'**

Ym mis Hydref 2015 comisiasom fodiwlau hyfforddiant i athrawon - 'Lleihau effeithiau tlodi drwy'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth'. Mae'r modiwlau hyn yn darparu trosolwg o'r pwnc hwn, yn ogystal â chyfleoedd i drafod datblygiad proffesiynol, materion yn ymwneud â chydweithredu a sut i hybu ymagwedd ysgol gyfan.

**Pecyn Cymorth Llythrennedd a Rhifedd: Celc**

Mae'r adnodd ar-lein hwn yn dangos sut y gall y celfyddydau creadigol ddarparu cyfleoedd ysgogol a chyfoethog i helpu athrawon i fodloni gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Rydym eisiau i fwy o athrawon ddefnyddio'r celfyddydau i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn fwy effeithiol ac mewn ffyrdd llawn dychymyg. Amcan y gweithgareddau yw bod yn gyffrous, yn wreiddiol ac yn hwyliog, gyda'r nod o ysbrydoli ymarfer mwy anturus a chreadigol.

Mae'r adnodd wedi'i gynllunio hefyd i hybu gwell cydweithredu rhwng artistiaid ac athrawon. Ei nod yw meithrin mwy o ymwybyddiaeth ymysg athrawon o'r cyfraniad unigryw a 'gwerth ychwanegol' y gall artistiaid ei wneud i arferion yr ystafell ddosbarth. Yn yr un modd, nod y pecyn cymorth yw cynyddu dealltwriaeth artistiaid o'r ffordd y gall eu gweithgareddau mewn ysgolion gefnogi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

**Cynulleidfa darged** y pecyn cymorth yw athrawon yn y Cyfnod Sylfaen uwch, CA2 a CA3, ac artistiaid sydd â diddordeb mewn gweithio gydag athrawon yn y cyfnodau hyn.

# Beth ydym ni'n ei ddarganfod?

Yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o'r prosiectau, mae tystiolaeth ansoddol a meintiol a ddarparwyd gan yr ysgolion ar eu ffurflenni hunanwerthuso eisoes yn dangos yr effaith mae'r rhaglen yn ei chael ar ddysgu'r disgyblion. Mae'r cynllun wedi cael ei dylunio i sicrhau gwelliannau o ran ennyn diddordeb disgyblion, yn ogystal ag o ran sgiliau a chyrhaeddiad llythrennedd a rhifedd.

Rydym wedi cael data o'r ffurflenni hunanasesu sy'n cynnig ciplun o'r canlyniadau a'r effeithiau a nodwyd gan yr ysgolion.

**Yr effaith ar ddisgyblion**

Mae'r themâu cyffredin sy'n dod i'r amlwg o'r adroddiadau'n cynnwys:

- Mwy o hyder – ymysg disgyblion, athrawon a chynorthwywyr dysgu
- Mwy o gydweithio a gweithio mewn tîm o ansawdd gwell, rhwng disgyblion ac athrawon, rhwng disgyblion ac mewn prosiectau clwstwr rhwng ysgolion
- Cymryd mwy o risgiau – athrawon yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel wrth gymryd risgiau a herio eu hunain, ac wrth annog disgyblion i wneud yr un peth
- Mwy o ysgogiad, diddordeb a balchder, yn enwedig ymysg disgyblion sydd wedi ymddieithrio
- Mae athrawon yn nodi gwelliannau amlwg yn sgiliau llythrennedd a rhifedd y dysgwyr

Mae'r ysgolion sy'n cymryd rhan mewn ymyriadau creadigol sy'n canolbwyntio ar lythrennedd wedi nodi bod nifer sylweddol o'r disgyblion perthnasol wedi gwneud cynnydd cadarnhaol mesuradwy wrth ddatblygu eu sgiliau llafaredd ac ysgrifennu.

Yn yr ysgolion sy'n canolbwyntio ar rifedd, mae'r ysgolion wedi nodi bod y disgyblion sy'n cymryd rhan yn yr ymyriad wedi dod yn fwy hyderus yn eu galluoedd mathemategol, sy'n arwain at welliannau o ran ymddygiad yn y dosbarth a chyrhaeddiad.

Nododd rhai ysgolion effaith drawsgwricwlaidd yn gyffredinol, gan fod y dysgwyr yn fwy hyderus, ac wedi'u hysgogi a'u hysbrydoli'n fwy. Er enghraifft, mae un ysgol wedi nodi sut mae gwell sgiliau Saesneg (llafaredd, darllen ac ysgrifennu) yn cael effaith ganlyniadol ar ddysgu mewn pynciau eraill.

Mae'r adroddiadau asesu hefyd yn darparu tystiolaeth gynnar o effaith y cynllun ar ddysgwyr o gefndiroedd difreintiedig (fel y'u mesurir yn ôl cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim)

Mae llawer o ysgolion hefyd wedi nodi bod eu hymyriadau creadigol wedi cael effaith gadarnhaol arbennig o gryf ar ddisgyblion oedd mewn perygl o ymddieithrio o ddysgu.

Mae dysgwyr ac athrawon wedi nodi gwelliant yn eu cymhwysedd digidol, ac mae nifer o ysgolion wedi manteisio ar y cynllun i ganolbwyntio ar ddulliau creadigol o ddefnyddio technoleg ddigidol.

Mewn un ysgol, manteisiodd dysgwyr ac athrawon ar y cyfle i ddysgu mwy am godio a rhaglennu, gyda'r dysgwyr yn nodi bod Saesneg a Dylunio a Thechnoleg yn 'hwyl' o ganlyniad i'r prosiect. Mynegodd dau ddysgwr ddiddordeb mewn dilyn gyrfa gysylltiedig â chodio.

Mewn ysgol arall, datblygodd dysgwyr gêm newydd ar eu liwt eu hunain; yn yr ysgol hon, nodwyd mai rhai o'r bechgyn mwy heriol yn y cohort oedd wedi dangos yr addewid mwyaf mewn gwaith prosiect yn y pen draw.

Ymddengys fod y cynllun yn cael effaith neilltuol mewn ysgolion arbennig, gyda'r plant yn dysgu ac yn datblygu amrywiaeth o sgiliau cymdeithasol (rhyngweithio, gwneud ffrindiau, gwrando ar eraill). Mae'r cynllun hefyd wedi darparu cyfleoedd i'r ysgolion hyn arbrofi gyda thechnolegau a dulliau creadigol newydd o ennyn diddordeb disgyblion â'r amrywiaeth fwyaf o alluoedd.

**Yr effaith ar athrawon**

Mae nifer fawr o athrawon wedi nodi effeithiau fel dysgu sgiliau ymarferol newydd; a defnyddio creadigrwydd ac/neu gael eu hatgoffa o'u creadigrwydd eu hunain. Mae parodrwydd i gymryd risgiau ac arbrofi, ac i oddef ansicrwydd a 'llanast' wedi bod yn ymatebion cyffredin.

Rydym wedi gweld bod athrawon yn nodi eu bod yn teimlo'n fwy cartrefol wrth ddefnyddio creadigrwydd yn yr ystafell ddosbarth.

Un ymateb cyffredin iawn gan athrawon oedd bod y prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi golygu cymryd amser, ar gyfer myfyrio beirniadol ac i ganiatáu i'r disgyblion ddod o hyd i'w hatebion eu hunain i broblemau. Mae llais y disgybl wedi dod i'r amlwg fel elfen bwysig mewn nifer o brosiectau. Mae llawer o athrawon ac ysgolion yn nodi dyhead i edrych ar wneud mwy o ddefnydd o brosiectau creadigol yn y dyfodol, a dengys yr adroddiadau hunanasesu fod athrawon wedi parhau i ddefnyddio technegau a sgiliau newydd y tu hwnt i oes y prosiectau. Mewn rhai ysgolion, mae creadigrwydd bellach yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Ysgol.

Mae'r cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol wedi cael canmoliaeth arbennig gan athrawon am gynnig cyfle DPP gwerthfawr sydd wedi cael croeso mawr.

**Mwy o dystiolaeth o'r effaith**

Yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun, cafodd rhai o'r Ysgolion Creadigol Arweiniol eu harolygu gan Estyn, ac mae'r adroddiadau a gyhoeddwyd yn nodi cyflawniad y rhaglen yn yr ysgolion hynny.

Er enghraifft, dyma sydd gan adroddiad arolygu Ysgol Bryn Deva i'w ddweud am y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol:

***'Mae'r ysgol wedi meithrin cysylltiadau cryf iawn â'r gymuned leol. Mae'n gweithio'n effeithiol iawn ochr yn ochr â nifer o sefydliadau cymunedol a mannau addoli. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar les disgyblion ac mae'n cyfoethogi eu profiadau. Mae cyfranogiad yr ysgol fel ysgol greadigol arweiniol wedi cael effaith gadarnhaol ar allu'r tîm arwain i wella profiad disgyblion. Fel rhan o brosiect i annog llythrennedd bechgyn, bu staff yn gweithio gyda'r gymdeithas cychwyr leol i adeiladu llong ar ffurf draig a'i hwylio ar Afon Ddyfrdwy gyda mwg o ffagl yn byrlymu o ben blaen y llong. Fe wnaeth hyn ysbrydoli darllen ac ysgrifennu disgyblion yn sylweddol.'***

Mae rhan o adroddiad Estyn ar Ysgol Tudno yn datgan:

***"Argymhelliad 4: Sicrhau bod yr addysgu yn herio disgyblion ac yn eu datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol***

*Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o brosiectau celfyddydau creadigol gydag arlunwyr a cherddorion o Gymru, fel creu ac arddangos cerfluniau ohonyn nhw eu hunain. Mae gweithgareddau o'r fath yn herio bron pob un o'r disgyblion ac yn datblygu meddwl annibynnol cadarn. Mae Ysgol Tudno yn* ***Ysgol Gynradd Greadigol Arweiniol*** *ac mae'n cymryd rhan mewn sawl prosiect gydag ysgolion cynradd partner. Mae'r mentrau hyn yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau datrys problemau drwy ddefnyddio cyfryngau creadigol, fel celf a cherddoriaeth, mewn gweithgareddau trawsgwricwlaidd."*

# Lledaenu'r Newyddion

### Strategaeth Cyfathrebu

Mae cyd-strategaeth cyfathrebu'n sicrhau y caiff athrawon, ysgolion a rhanddeiliaid y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am yr holl agweddau ar y Cynllun Dysgu Creadigol.

### Parth Dysgu Creadigol

Rydym yn annog ein holl bartneriaid i ddefnyddio'r Parth Dysgu Creadigol ar Hwb, a lansiwyd ym mis Mawrth 2016 ac sy'n darparu canolbwynt digidol canolog ar gyfer *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau*. Mae cydweithio wrth wraidd y parth; yn bennaf, mae'n lle i ysgolion ac ymarferwyr creadigol gyfathrebu a gweithio mewn partneriaeth.

Mae'r parth yn cynnig amrywiaeth o nodweddion sy'n cynorthwyo'r dull cydweithredol hwn, fel calendr digwyddiadau, mannau rhwydweithio, fideos arfer orau ar greadigrwydd, adnoddau i ysgolion ac ardal 'partneriaid creadigol', sy'n cynnwys mwy na 60 o sefydliadau diwylliannol o bob cwr o Gymru.

Mae hefyd yn cyfrannu at y gwaith o gynorthwyo ysgolion wrth symud tuag at y cwricwlwm newydd, drwy ddymchwel y rhwystrau i gydweithredu effeithiol rhwng athrawon ac ymarferwyr celfyddydol, ac felly'n cynyddu'r cyfleoedd i ysgolion ymgysylltu â phrofiadau celfyddydol a diwylliannol.

# Rheoli'r rhaglen

### Llywodraethu

Y Gyfarwyddiaeth Addysg sy'n cadeirio cyfarfodydd chwarterol Grŵp Llywio Dysgu drwy'r Celfyddydau. Mae hwn y cynnwys aelodau o Lywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru ac Estyn. Darperir gwybodaeth i'r Grŵp Llywio hwn gan is-grwpiau eraill a sefydlwyd i reoli a monitro'r rhaglen.

### Gwerthuso'r rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau

Mae gwerthusiad annibynnol yn cael ei gynnal ar hyd oes y rhaglen. Yn dilyn cystadleuaeth agored, dyfarnwyd y contract hwn i gonsortiwm dan arweiniad ymgynghoriaeth Wavehill o Aberaeron.

### Prosiect Ymchwil Dysgu Creadigol y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd

Mae Cymru'n cymryd rhan mewn prosiect ymchwil rhyngwladol sy'n cael ei gydgysylltu gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Mae'r prosiect hwn, sy'n cynnwys dwsin o wledydd ar draws y byd, wedi cael ei gynllunio i helpu i ddatblygu a mireinio dealltwriaeth o sut y gellir asesu sgiliau creadigol a meddwl beirniadol mewn lleoliad addysgol. Mae offeryn asesu wedi cael ei ddatblygu gan y Sefydliad a bydd yn cael ei ddefnyddio mewn ysgolion dethol ar draws Cymru yn ystod blwyddyn ysgol 2016/17. Bydd mwy nac 800 o ddysgwyr a'u hathrawon yn cymryd profion ar-lein syml yn ystod tymhorau'r Hydref a Gwanwyn. Mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru'n unfryd eu barn bod ein rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau'n darparu cyfle rhagorol inni edrych yn fanwl ar ein dull ni yng Nghymru o ddatblygu sgiliau creadigol a meddwl beirniadol ymysg dysgwyr yng Nghymru. Rydym yn gyffrous ynghylch cymryd rhan yn y prosiect pwysig hwn ac yn ddiolchgar i'r ysgolion sydd wedi cytuno i fod yn rhan o'r gweithgarwch asesu.

# Atodiad 1
# Astudiaethau Achos Ysgolion Creadigol Arweiniol

## Astudiaeth Achos: Ysgol Gynradd y Rhws
**(Bro Morgannwg, rhanbarth Canolbarth y De)**

***'Mae'r holl ddangosyddion sy'n mesur lles, hyder, rhifedd, perfformiad a sgiliau llafaredd y disgyblion yn awgrymu bod y prosiect wedi rhagori ar ein disgwyliadau cychwynnol. Yn ogystal, mae'r staff addysgu wedi dysgu sgiliau trosglwyddadwy a fydd yn cael eu defnyddio ar draws y cwricwlwm mewn blynyddoedd academaidd i ddod. Roedd y newid o ran disgwyliadau felly'n un cadarnhaol.'***
Y Pennaeth, Louise Lynn, Adroddiad Gwerthuso Ysgolion Creadigol Arweiniol Ysgol Gynradd y Rhws

Nododd Ysgol Gynradd y Rhws rifedd fel y flaenoriaeth datblygu i'r ysgol yr oedd eisiau mynd i'r afael â hi. Ar ôl i'r flaenoriaeth datblygu hon gael ei nodi, ymchwiliwyd ymhellach er mwyn llunio nod ac amcan manwl a gwrthrychol: ***Codi safonau rhifedd: yn benodol, gwella sgiliau mathemateg sylfaenol a deall trafodion masnachol – ar gyfer grŵp o ferched Blwyddyn 4 y nodwyd eu bod yn tanberfformio yn y maes hwn.***



Dysgwr yn dangos ei sgiliau creu gemwaith (llun llonydd o fideo gan Glen Biseker, Winding Snake)

Wedi ystyriaeth ofalus gan dîm Ysgolion Creadigol Arweiniol yr ysgol (Athrawes a Chydgysylltydd Ysgol) a'i Asiant Creadigol, Nigel Crowle, cytunwyd bod potensial i waith ar y cyd gyda gemydd (a gâi ei ddarparu ar y cyd gydag athrawes Blwyddyn 4) ddarparu ffordd o fynd i'r afael â'r flaenoriaeth datblygu a nodwyd gan yr ysgol. Arweiniodd hyn at nodi'r cwestiwn ymholi i'r prosiect fel y ganlyn: ***'A all creu gemwaith ein helpu i ddefnyddio mathemateg pob dydd i brynu a gwerthu, ac felly gwella ein sgiliau rhifedd, yn arbennig yng nghyd-destun defnyddio arian?***

Rhagwelwyd y byddai'r prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol yn gwella sgiliau rhifedd disgyblion y grŵp targed oherwydd y byddai'n ennyn eu diddordeb yn fwy. Hefyd, byddai cael profiad go iawn o ddefnyddio sgiliau arian yn helpu i gymhwyso gwybodaeth y disgyblion yn rhwyddach mewn sefyllfa asesu fwy haniaethol.

Dros gyfnod o ddeg wythnos yng ngwanwyn 2016, cyd-ddarparodd athrawes Blwyddyn 4 (Tara Hawkins) ac Ymarferydd Creadigol (Kate Dumbleton, gemydd) 21 sesiwn i 25 o ddisgyblion Blwyddyn 4, yn fechgyn a merched.

Yn dilyn y cyfnod hwn, nodwyd nifer o ganlyniadau yn ystod elfen gwerthuso'r prosiect. Noda adroddiad gwerthuso'r ysgol: ***Ym maes rhifedd, mae'r disgyblion wedi dangos gwelliant amlwg o ran ymgysylltu ac maent wedi cael eu hysgogi i gymryd rhan lawn ym mhob sesiwn. Mae cyfran fawr o sgorau mathemateg y dysgwyr wedi codi. Defnyddiasom dri asesiad wedi'u ffurfioli. Craffasom ar eu sgorau crai... Gan edrych ar grŵp sampl o 9 disgybl o wahanol alluoedd, cafodd 89% o'r disgyblion sgôr uwch yn yr asesiad gweithdrefnol, yr asesiad rhesymu, neu'r ddau.'***

***"Defnyddiodd KD (Ymarferydd Creadigol) iaith dechnegol am yr offer a'r technegau mewn ffordd oedd yn oed-briodol ac yn berthnasol i'r disgyblion. Roedd ei hesboniadau bob amser yn addas i blant, ac roeddem wrth ein bodd â'r ffordd yr oedd yn ymwneud â'r disgyblion."***

Becky Heavyside (Cydgysylltydd Ysgol).

Paratowyd yr Astudiaeth Achos gan **Ian McAndrew**,
Arweinydd Rhanbarthol Consortiwm Canolbarth y De

## Astudiaeth Achos: Ysgolion Pencoch a Maes Hyfryd

**(Prosiect clwstwr rhwng ysgolion arbennig cynradd/uwchradd) (Sir y Fflint, rhanbarth GwE)**

Dechreuodd yr Asiant Creadigol Tammi Gwyn ei gwaith gyda'r ysgolion drwy ymchwilio i'w hanghenion. Gwnaeth hyn yn rhannol drwy ymgynghori â'r Uwch Dimau Rheoli a thrwy edrych ar eu Cynlluniau Datblygu Ysgol. Hefyd treuliodd gryn dipyn o amser gyda'r disgyblion er mwyn canfod eu barn. Daeth y broses hon i ben gyda dealltwriaeth glir o flaenoriaethau'r ysgolion y byddai'r prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol yn eu targedu: y cyfnod pontio, gwella cyfathrebu a llafaredd yn benodol, creu cwricwlwm wedi'i bersonoli sy'n cynnwys sgiliau bywyd allweddol ac ymgorffori'r Cwricwlwm Cymreig.



Disgyblion, athrawon, ymarferwyr, rhieni ac aelodau o'r gymuned yn dod ynghyd ar gyfer y labrinth promenâd *Digging up the Past* (Llun: Owen Evans)

O'r ymchwil gychwynnol hon, daeth y cwestiwn ymholi canlynol i'r amlwg:

***'A all galluogi dysgwyr i ddatblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau'n greadigol (y fframwaith llafaredd) ddatblygu eu potensial emosiynol a chymdeithasol, a fydd yn hwyluso'r cyfnod pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd?'***

Ar ôl i fframwaith gael ei greu, recriwtiwyd Rob Spaull (arlunydd cyfryngau digidol) a Fiona Collins (storïwr/ arbenigwr drama) fel Ymarferwyr Creadigol i gyflawni'r prosiect ochr yn ochr ag athrawon o ysgolion Pencoch a Maes Hyfryd. Cyflawnwyd y prosiect mewn 'Canolfan Eco': ysgol goedwig a saif ar safle gweithfeydd sment Hanson, ychydig o filltiroedd o'r ddwy ysgol. Cynhelir yr adnodd hwn gan Ysgol Maes Hyfryd, ond ni chaiff ei ddefnyddio'n ddigonol; cytunodd y tîm y byddai'r tir niwtral hwn yn amhrisiadwy wrth ymdrin ag amcan y prosiect o ran pontio. Roedd y fenter drawsgwricwlaidd gyfoethog hon yn cyfuno crefft dweud stori gyda'r defnydd o dechnoleg ddigidol er mwyn astudio'r

Oes Efydd, o dan yr enw *Digging up the Past*. Roedd y gweithgareddau'n amrywiol ond yn cynnwys technegau adeiladu tŷ crwn (dwbio), plannu hadau, ffilmio gan ddefnyddio camerâu GoPro ac ar sgrin werdd, cynhyrchu tŷ crwn rhithiol rhyngweithiol gyda gwaith trin a llywio rhith-ofod 3D, chwarae rôl cymeriad byrfyfyr, cynhyrchu celfi theatr ac anifeiliaid crefft a chreu bwrdd stori ac adrodd stori (gan ychwanegu cerddoriaeth, caneuon ac effeithiau sain). Roedd rhieni, teuluoedd ac aelodau o'r gymuned yn gallu dilyn y prosiect drwy ap SeeSaw a grëwyd gan Ysgol Maes Hyfryd, oedd yn rhannu blogiau a lluniau o'r gwaith.

Wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen ac wrth i hyder y disgyblion dyfu, penderfynodd y tîm gynhyrchu perfformiad amlsynhwyraidd i ddod â'r fenter i ben ac i ddwyn yr holl randdeiliaid ynghyd er mwyn iddynt 'rannu profiad'. Labrinth promenâd oedd hwn oedd yn cynnwys yr holl agweddau ar weithgarwch y prosiect mewn cyfres o olygfeydd byr / gosodweithiau. Rhannwyd ffilm a recordiwyd fel bwletin newyddion gyda'r gynulleidfa hefyd. Dangoswyd y ffilm hon yng Nghwtsh y Dysgwyr yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Sir y Fflint, ym mis Mehefin. Cyfrannodd gwaith o'r prosiect hefyd at arddangosfa yn ystafell oriel Llyfrgell y Fflint, ar gyfer Dyfarniad Cenedlaethol mewn Treftadaeth. Mae'r datblygiad proffesiynol mewn prosiect Ysgolion Creadigol Arweiniol yn gweithio'r ddwy ffordd. Mae'r Ymarferwyr Creadigol a'r athrawon yn dysgu oddi wrth ei gilydd drwy gydweithio, fel yr esboniodd un o'r athrawon:

***'Mae athrawon AAA yn eitha creadigol o ran y ffordd maen nhw'n cynllunio ac yn cyflenwi'r cwricwlwm, gan eu bod yn gweithio gydag anghenion dysgu unigol ac yn cynllunio gwersi er mwyn ennyn diddordeb disgyblion sydd â galluoedd a dulliau dysgu gwahanol. Daw'r ymarferwyr yn fwy cyfarwydd â Chynlluniau Addysg Unigol a Chynlluniau Ymddygiad Unigol, ynghyd â dulliau gwahanol o nodi cynnydd a dysgu disgyblion. Sylwasom fod yr ymarferwyr yn teimlo'r angen i gael eu 'hoffi' ac i gael eu gweld yn ymgysylltu â'r holl ddisgyblion ar ddechrau'r prosiect. Buan iawn y dysgodd yr ymarferwyr i beidio â chymryd pethau'n bersonol, ac nad yw'n bosibl bod yn berffaith trwy'r amser.'***

***'Roedd yn gyd-fenter lwyddiannus iawn, ac mae wedi helpu'n fawr iawn gyda'r broses pontio rhwng ysgolion. Gwnaeth yr holl staff a gweithwyr proffesiynol waith gwych.'***
Pennaeth Ysgol Pencoch

Mae'r prosiect wedi helpu'r ddwy ysgol i ddatblygu dysgu creadigol drwy ddefnyddio man dysgu awyr agored fel rhan annatod o'u gwaith cynllunio er mwyn ymgorffori Arferion Meddwl Creadigol mewn cynllun trawsgwricwlaidd tymor canolig. Mae wedi dangos bod angen i ddysgu creadigol cynaliadwy fod yn hyblyg, ac roedd y Ganolfan Eco yn fan dysgu eithriadol o effeithiol i reoli lles a dysgu'r disgyblion. Ffynnodd creadigrwydd a chydweithio oherwydd bod y lle'n hybu cydlyniant rhwng yr holl bobl oedd yn cymryd rhan (Ymarferwyr, athrawon a disgyblion).

Dyma grynodeb gan un o ddisgyblion Ysgol Maes Hyfryd o'r hyn a ddysgodd o'r prosiect:

***"Dw i'n hoffi chwarae gyda fy ffrindiau a dw i'n hoffi mynd at y cyfrifiadur gyda Rob a dw i'n hoffi gwneud y tŷ crwn a gwneud pethau gyda mwd a dw i'n hoffi cerdded yn y goedwig a dw i'n hoffi tyfu planhigion. Dw i'n hoffi chwarae gyda fy ffrindiau o Bencoch a Rob a phawb."***

Meddai disgybl o Ysgol Pen Coch:

***"Dw i wedi mwynhau fy hun yma... Dw i'n dda am roi mwd ar y tŷ crwn. Gallwn i gofio sut i'w wneud eto os byddai rhaid imi... Dwi wedi mynd yn well am ddweud stori. Fi wnaeth stori'r Llwynog Ninja; gallwn i wneud mwy os oeddwn i eisiau. Dw i'n meddwl fy mod i'n storïwr da a dw i'n canu'n hyfryd. Dw i'n hoffi gwneud y cyfrifiadur gyda Rob: dw i wedi gwneud cerddoriaeth."***

Paratowyd yr astudiaeth achos gan **Nia Richards,** Arweinydd Rhanbarth GwE

## Astudiaeth Achos: Ysgol Uwchradd Crughywel

**(Powys, rhanbarth ERW)**

Canolbwyntiodd Ysgol Uwchradd Crughywel ar un o'r amcanion yn ei chynllun datblygu ysgol sef **codi safonau llythrennedd ymysg myfyrwyr blwyddyn 7, lle mae data blaenorol yn awgrymu y byddant yn cael trafferth gyda gwaith iaith.** Gan gydweithio'n agos â'r Asiant Creadigol Amanda Griffkin, datblygodd tîm o athrawon dan arweiniad y Cydgysylltydd John Clarke y cwestiwn ymholi:
*'Oes angen iaith arnom i ddysgu?'*

Gwahoddodd y tîm ddisgyblion oedd wedi'u nodi fel rhai oedd yn debygol o gael trafferth gyda llythrennedd i gymryd rhan mewn prosiect i geisio canfod a yw'n bosibl dysgu heb iaith. Derbyniodd 16 o ddisgyblion y gwahoddiad a dewisasant yr Ymarferwyr Creadigol yr oeddent eisiau gweithio gydag ef o restr fer a luniwyd gan yr Asiant Creadigol. Gan weithio gydag awdur Cymraeg, artist hip-hop, arlunydd comig ac animeiddiwr, dyfeisiasant y senario ar gyfer *Stranded* - ffilm animeiddiedig a gafodd ei datblygu a'i chreu mewn partneriaeth â'r Ymarferydd Creadigol a staff addysgu dros gyfnod o 13 wythnos. Crëwyd amgylchedd stiwdio am un neu ddwy sesiwn diwrnod llawn bob wythnos fel tîm creadigol, cydweithredol, gan ddysgu pynciau cwricwlwm wrth iddynt gynhyrchu eu ffilm a'i thrac sain. Ar ddiwedd pob sesiwn, byddai'r grŵp cyfan yn cynllunio'r cam nesaf gyda'i gilydd. Nodwyd hyn fel un o uchafbwyntiau go iawn y prosiect, ac un o'r agweddau arwyddocaol yn llwyddiant y cynllun.



Cyfarfod Cynllunio'r Tîm Creadigol, Ysgol Uwchradd Crughywel (Llun: John Clarke)

Roedd tîm y prosiect wedi synnu gyda'r ffordd yr ymroddodd yr holl ddisgyblion mor frwd i bob cam o broses y prosiect, o ddewis yr Ymarferwyr Creadigol, creu'r naratif, creu'r synau, y set a'r cymeriadau a dyfodd o'r deialog a chafwyd rhyngddynt a'r artistiaid. Ar ôl i rywun ddangos iddynt sut i wneud rhywbeth, roeddent yn defnyddio eu sgiliau newydd i ddatblygu'r gwaith; roeddent yn cyd-ffurfio'r broses wrth iddynt ddysgu ac wrth i'r naratif ddatblygu. Daethant yn dîm creadigol â phwrpas.

Defnyddiwyd holl sgiliau allweddol cyfathrebu, rhifedd, TGCh, gweithio gydag eraill, datrys problemau a gwella eu dysgu eu hunain; daethant yn ymwybodol o bum Arfer Meddwl Creadigol dysgu creadigol a chanfuant ffordd o fesur eu nodweddion eu hunain; gweithiasant yn gadarnhaol mewn grwpiau amrywiol i gyflawni targedau hunangyfeiriedig o fewn cyfyngiadau amser.

***"Yn ddiau mae cydweithio ar y prosiect, dysgu sgiliau newydd a chael y cyfle i'w defnyddio o dan gyfarwyddyd artistiaid proffesiynol wedi caniatáu i'r disgyblion ddatgelu doniau creadigol go iawn. Dangosasant hefyd eu bod yn gallu defnyddio'r holl sgiliau allweddol yn effeithiol er mwyn cyflawni'r gwaith. Soniodd yr holl oedolion a gymerodd ran yn y prosiect am ba mor dda yr oedd y grŵp yn gweithio fel tîm."***

***"Wedi gweithio'n greadigol gyda phobl ifanc ers 40 mlynedd, rwyf bob amser yn cael fy synnu gan eu cyfraniadau, eu hegni a'u galluoedd, ac yn ymhyfrydu yn y pethau hyn. O gael y cyfleoedd iawn maen nhw bob amser yn rhagori ar ddisgwyliadau oedolion ac yn herio'r labeli negyddol a roddwyd iddyn nhw – wedi'r cyfan, maen nhw, fel yr ydym ni i gyd, yn dal i ddysgu!"***

John Clarke, Cydgysylltydd, Ysgol Uwchradd Crughywel




Gwaith disgyblion Blwyddyn 9 Ysgol Uwchradd Crughywel ar y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol (Llun: John Clarke)

Mae prosiectau Ysgolion Creadigol Arweiniol yn cael eu harwain gan y broses. Wedi i'r broses ddod i ben, lansiodd Ysgol Uwchradd Crughywel y ffilm, arddangosodd y ffotograffau a'r modelau gwreiddiol a ddefnyddiwyd yn y ffilm er mwyn dangos y broses, ac erbyn hyn mae'n datblygu presenoldeb digidol – a'r disgyblion sydd wedi arwain hyn i gyd. Mae'r staff addysgu'n cynllunio cyfres o sesiynau DPP gyda'r ymarferwyr creadigol er mwyn lledaenu'r dysgu ar draws yr ysgol.

Pynciau Cwricwlwm: Saesneg, Cymraeg Ail Iaith, Hanes, Cerdd, Celf a Dylunio, TGCh, Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Llythrennedd ar draws y cwricwlwm, anghenion addysgu ychwanegol (pob un yn CA3).



Disgyblion Blwyddyn 9 yn ffilmio eu modelau yn Ysgol Uwchradd Crughywel (Llun: John Clarke)

Paratowyd yr Astudiaeth Achos gan **Ruth Lloyd**, Swyddog Rhanbarthol ERW

## Astudiaeth Achos: Ysgol Gynradd Millbrook

**(Casnewydd, rhanbarth EAS)**

*Canolbwynt prosiect Ysgol Gynradd Millbrook yng Nghasnewydd:*
***Jibber Jabber (Teitl gweithio: The History of Language)***

***Sut ydym ni'n defnyddio iaith heddiw, o le ddaeth hi ac i ble mae'n mynd?***

***Drwy ddysgu am enghreifftiau o'r gair ysgrifenedig a chyfathrebu ar hyd hanes, o baentiadau mewn ogofau a hieroglyffau i storïau ysgrifenedig a ffyrdd o ddefnyddio'r gair ysgrifenedig heddiw, bydd y disgyblion yn meithrin dealltwriaeth o bwysigrwydd y gair ysgrifenedig ac yn magu hyder mewn gweithgareddau siarad ac ysgrifennu ffurfiol.***

Lluniwyd y prosiect i ymdrin â'r flaenoriaeth ganlynol yn y Cynllun Datblygu Ysgol:
Codi safonau llafaredd ac ysgrifennu ymysg disgyblion Blwyddyn 6

***'Rydyn ni'n hynod o falch o'r holl ddysgwyr Blwyddyn 6 sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. Rydyn ni wedi canolbwyntio ar wella sgiliau cyfathrebu. Mae disgyblion Millbrook wedi gweithio ochr yn ochr â'r ymarferydd creadigol Lynne Clausen gan ddatblygu eu sgiliau siarad a gwrando drwy amrywiaeth o weithgareddau drama.. Penllanw'r gwaith oedd perfformiad y plant o 'Jibber Jabber' i rieni, yr ysgol a'r gymuned leol ar ddechrau mis Mai. Cynhyrchiad creadigol oedd 'Jibber Jabber' oedd yn cynnwys elfennau o waith Shakespeare a darnau a ysgrifennwyd gan y plant eu hunain. Roedd y canlyniad yn berfformiad rhagorol gan bob plentyn gan ddangos mwy o hyder a gwelliant yn sgiliau llafaredd unigol y disgyblion.'***

Lindsey Watkins, Pennaeth Ysgol Gynradd Millbrook.

Gweithiodd yr Ymarferydd Theatr Lynn Clausen gyda 2 grŵp ffocws o 8 disgybl o ddosbarth Blwyddyn 6 yr athro Paul Manship. Dewiswyd y disgyblion gan eu bod yn gysylltiedig â blaenoriaeth datblygu'r ysgol sy'n ymdrin ag ysgrifennu a llafaredd. Cafodd yr holl ddysgwyr eu cynnwys yn y prosiect o'r cychwyn; o gyfweld â'r ymarferydd i ysgrifennu a chreu drama a pherfformiadau. O dro i dro cyflawnodd y grŵp ffocws dasgau/gwaith grŵp ychwanegol er mwyn caniatáu i sgiliau gael eu gwreiddio ochr yn ochr â gwaith ar wahân i fonitro'r lefelau ymgysylltu a chyrhaeddiad.

Yn ystod y sesiynau wythnosol rhwng mis Ionawr a mis Mai, cafodd y dysgwyr eu harwain drwy amrywiaeth o dechnegau drama er mwyn ymchwilio a chreu sgript a gafodd ei pherfformio'n fyw a'i ffilmio. Roedd yn cynnwys deunydd a grëwyd yn dilyn ymweliad ymchwil â Sain Ffagan, a helpodd i ddatblygu sgiliau cydweithredu'r dysgwyr a meithrin gwell ddealltwriaeth o'r prosiect.

Y man cychwyn oedd 'hanes iaith'- ei diben, ei thaith, lle'r ydym ni heddiw a lle y byddwn ni yn y dyfodol. Bu'r disgyblion yn edrych ar amrywiaeth o weithgareddau, yn cadw cofnod wythnosol ac yn cwblhau tasgau ysgrifenedig oedd yn ymwneud â'r prosiect. Buont wrthi'n dylunio posteri i hysbysebu'r sioe, gan ddefnyddio meddalwedd Pic Collage, ac yn defnyddio TGCh i ddatblygu a chofnodi syniadau. Roedd 'Jibber Jabber', y cynhyrchiad terfynol, yn para bron awr ac yn cyflwyno golwg doniol ac ar brydiau emosiynol ar hanes cyfathrebu.

Creodd y disgyblion lawer o gyffro gartref ac yn yr ysgol am y cynhyrchiad terfynol a chafwyd cyfraniadau gwych gan rieni hefyd, gyda llawer ohonynt yn sôn am y newidiadau yr oeddent yn eu gweld yn eu meibion a'u merched. Aeth un rhiant cefnogol gyda'r dysgwyr ar y daith i San Ffagan i chwilio am gyd-destun. Cafodd y rheini wybod am y broses ar hyd cyfnod y prosiect a'u gwahodd i'r perfformiad terfynol, ynghyd ag aelodau o'r gymuned o'r cartref preswyl lleol. Cafodd pob un ei gyfweld gan y disgyblion ar ôl y perfformiad.



Ymchwilio i iaith yn Ysgol Gynradd Millbrook (Llun: Claire Turner, Arweinydd Rhanbarthol)

Cafodd y perfformiad ei recordio a bydd yn cael ei ddefnyddio fel offeryn addysgu/gwerthuso. Bwriada'r athro dosbarth ei ddefnyddio gyda'i ddosbarth Blwyddyn 6 y flwyddyn nesaf i helpu i ddatblygu eu sgiliau llafaredd/actio a gwerthuso. Roedd y disgyblion wedi mwynhau cael y cyfle i berfformio ac wedi magu hyder drwy berfformio i amrywiaeth o gynulleidfaoedd. Cafodd y prosiect sylw ym mhapur newydd y South Wales Argus - ar gais yr Ymarferydd Creadigol.

Bu'r Asiant Creadigol Sarah Goodey yn ymwneud yn agos â'r gwaith o gynllunio'r prosiect, gan lunio rhestr fer o ymgeiswyr a chyfweld ag ymarferwyr posibl. Mae'r Asiant Creadigol, cydgysylltydd yr ysgol, Athro Blwyddyn 6 a'r Ymarferydd Creadigol wedi cyfrannu at gynllun a chyllideb y prosiect, ac wedi cydweithio drwy gydol cyfnod y prosiect i gynllunio a myfyrio gyda'i gilydd ar wahanol gamau, drwy ymweliadau â'r sesiynau, cyfarfodydd wyneb yn wyneb, galwadau ffôn a negeseuon e-bost. Mae'r Ymarferydd Creadigol wedi darparu toreth o adnoddau drwy gydol cyfnod y prosiect i gynorthwyo â'r gweithgareddau ac i gofnodi'r daith. Bydd y rhain ar gael i'r ysgol fel offeryn i ddefnyddio creadigrwydd ac i wella cyfathrebu yn yr ystafelloedd dosbarth.

***"Cyfarfod â chydweithiwr creadigol a gweithio cystal gyda hi, cyfnewid syniadau â'n gilydd; bob wythnos, roedd yna ddisgyblion a'n synnodd drwy wneud pethau oedd yn anghyfarwydd iddyn nhw ac wedyn dangos balchder amlwg; ansawdd y cynhyrchiad terfynol a'r ffordd y daeth popeth at ei gilydd yn y diwedd, gyda goleuadau, ciwiau cerddorol, PowerPoint a sgiliau'r disgyblion a wnâi'r gwaith technolegol."***

Paul Manship, athro dosbarth yn myfyrio ar 'ddisgwyliadau annisgwyl'

***"Roedd y prosiect hwn wedi gweithio'n anhygoel o dda yn y rhan fwyaf o feysydd, gan alluogi'r dysgwyr, yr athro Blwyddyn 6 a'r Ymarferydd i ragori ar eu disgwyliadau, gan berfformio'n dda gyda'i gilydd ac i eraill. Mae tystiolaeth helaeth o gyraeddiadau'r dysgwyr o ran llafaredd, llythrennedd a meithrin hunan-dyb, a bydd hyn yn cael effaith hirdymor ar eu gyrfaoedd yn yr ysgol. Mae ansawdd y deunydd gwerthuso a'r cynllunio a gafwyd gan yr ymarferydd wedi bod yn eithriadol, ac mae wedi galluogi'r prosiect i ffynnu."***

Sarah Goodey, Asiant Creadigol

Paratowyd yr astudiaeth achos gan **Shaun Featherstone** a **Claire Turner**,
Tîm Rhanbarthol Cyngor Celfyddydau Cymru (rhanbarth EAS)

# Atodiad 2:
## Enghreifftiau o grantiau llwyddiannus 'Profi'r Celfyddydau: Ewch i Weld'

| Enw'r Ysgol | Rhanbarth | Sir | Swm a dyfarnwyd | Manylion y profiad Ewch i Weld |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru St Paul | Consortiwm Canolbarth y De | Caerdydd | £540.00 | Mae'r ysgol hon yn dathlu Roald Dahl gydag wythnos o weithgareddau trawsgwricwlaidd yn yr ysgol. Rydym yn cefnogi'r ymweliad â rhaglen ysgolion Wondercrump yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. |
| Ysgol Caer Drewyn | GwE | Sir Dinbych | £440.50 | Aeth yr ysgol fach wledig hon â'r holl gohort Cyfnod Allweddol 2 (37 o ddysgwyr) i gymryd rhan mewn gweithdy gan Theatr Clwyd ac i wylio cynhyrchiad o *To Dream Again* (wedi'i seilio ar *A Midsummer Night's Dream*). |
| Ysgol Carrog | GwE | Sir Dinbych | £250.00 | Cais gan ysgol fach wledig i fynd â 15 disgybl Cyfnod Allweddol 2 (y Cyfnod Allweddol cyfan) i Bafiliwn y Rhyl i glywed yr awdur Michael Morpurgo yn darllen o'i lyfrau. |
| Ysgol Merllyn | GwE | Sir y Fflint | £450.00 | Cais i fynd â 47 o ddysgwyr i raglen ysgolion Gŵyl y Gelli. |
| Ysgol Min y Ddol | GwE | Wrecsam | £500.00 | Cais gan ysgol wledig cyfrwng Cymraeg sy'n agos i'r ffin â Lloegr i fynd â holl ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 (37 disgybl) am brofiad diwylliannol diwrnod cyfan i Lerpwl - yn benodol i'r Dociau a'r Amgueddfa Forwrol ac i Oriel Tate. |
| Ysgol Heol Goffa | ERW | Sir Gâr | £950.00 | Cais gan ysgol arbennig 3-19 oed a hoffai ddod â'r gweithdy ABC of Opera i'r ysgol. Bydd 20 o ddysgwyr yn elwa o fod yn rhan o'r perfformiad, a bydd yr ysgol gyfan yn elwa o fod yn rhan o'r gynulleidfa. |
| Ysgol Uwchradd Fitzalan | Consortiwm Canolbarth y De | Caerdydd | £1,000.00 | Cais i fynd â 20-30 o ddisgyblion sydd â diddordeb mewn astudio TGAU Drama i weld cynhyrchiad o *A Midsummer Night's Dream* gan yr RSC yn Stratford-upon-Avon. |
| Ysgol Bro Hyddgen | ERW | Powys | £385.00 | Cais gan ysgol 4-18 newydd ei sefydlu i fynd â 35 o ddisgyblion blwyddyn 7 i raglen ysgolion Gŵyl y Gelli. |

| Enw'r Ysgol | Rhanbarth | Sir | Swm a dyfarnwyd | Manylion y profiad Ewch i Weld |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Willows | Consortiwm Canolbarth y De | Caerdydd | £864.00 | Cais i fynd â grŵp o 95 o ddisgyblion blwyddyn 9 (y grŵp blwyddyn cyfan) a 5 o athrawon i berfformiad promenâd o Romeo and Juliet yng Nghanolfan Gelfyddydau Chapter. |
| Ysgol Gynradd Romilly | Consortiwm Canolbarth y De | Bro Morgannwg | £750.00 | Cais i fynd â 90 o ddysgwyr dosbarth Derbyn i Amgueddfa Genedlaethol Cymru i gymryd rhan yn y prosiect 'Fy ymweliad cyntaf ag oriel', gan ymweld â'r arddangosfa a chymryd rhan mewn gweithdai a gweithgarwch gydag arlunwyr. |
| Ysgol Gymraeg Aberystwyth | ERW | Ceredigion | £1,000.00 | Cais i'r ysgol fynd â 231 o ddysgwyr Cyfnod Sylfaen rhwng 3 a 7 oed i berfformiad o *'Diwrnod Hyfryd Sali Mali'* gan Arad Goch. |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Gladestry | ERW | Powys | £1,000.00 | Cais gan ysgol wledig fach i fynd â 26 o ddisgyblion CA2 i gymryd rhan yn arddangosfeydd *The Drawing Room ac Imaginary Worlds* yn Oriel Davies. |
| Ysgol Arbennig Rhydygors | ERW | Sir Gâr | £600.00 | Cais i fynd â 10 disgybl CA3 i'r Amgueddfa Wyddoniaeth yn Llundain, yn benodol i weld arddangosfa Leonardo da Vinci. |
| Ysgol Friars | GwE | Gwynedd | £325.00 | Cais i fynd â 46 o ddisgyblion 17 oed i ymweld â chanolfan Pontio yn rhanbarth GwE ac i fynd i'r Ŵyl Arloesedd - i wylio'r ffilm Gattaca a mynd i ddarlith wedyn. |
| Ysgol Bro Tawe | ERW | Powys | £900.00 | Cais i fynd â 85 o ddisgyblion rhwng 8 a 10 oed i weld cynhyrchiad cwmni Theatr Na nÓg o Ysbryd y Pwll ac i gymryd rhan mewn gweithdai creadigol yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe a'r Amgueddfa Genedlaethol yn Abertawe. |
| Ysgol Gymraeg Dewi Sant | ERW | Sir Gâr | £940.00 | Cais i fynd â 120 o ddisgyblion 7-9 oed i berfformiad gan gwmni Theatr Na nÓg yn Amgueddfa Abertawe. |

| Enw'r Ysgol | Rhanbarth | Sir | Swm a dyfarnwyd | Manylion y profiad Ewch i Weld |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Adamsdown | Consortiwm Canolbarth y De | Caerdydd | £500.00 | Cais i fynd â 60 o ddisgyblion blynyddoedd 4 a 5 i Ŵyl Undod Hijinx yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Roedd y cais am arian i dalu costau tocynnau a chludiant. |
| Ysgol Gynradd Sirol Maesyrhandir | ERW | Powys | £826.20 | Cais i fynd â 100 o ddisgyblion rhwng 7 a 1 oed i wylio Gangsta Granny yn Theatr Hafren. |
| Ysgol Gynradd Gatholig St Cuthbert | Consortiwm Canolbarth y De | Caerdydd | £279.00 | Cais i fynd â 62 o ddisgyblion rhwng 7 a 11 oed i gymryd rhan mewn gweithdai ac i wylio perfformiadau yng Ngŵyl Undod Hijinx. |


# Atodiad 3
## Enghreifftiau o grantiau 'Profi'r Celfyddydau: Cydweithio Creadigol'

| Enw'r ysgol neu sefydliad | Rhanbarth | Sir | Swm a dyfarnwyd | Manylion y Grant Cydweithio Creadigol |
|---|---|---|---|---|
| Dawns i Bawb | GwE | Gwynedd, Ynys Môn, Conwy | £12,281 | Prosiect dawns a chelfyddydau gweledol mewn 6 ysgol gynradd ar draws gogledd Cymru sy'n edrych ar hanes lleol, gwreiddiau a diwylliant. |
| Opera Canolbarth Cymru | ERW | Powys | £5,700 | Mae cwmni Opera Canolbarth Cymru'n cydweithio ag un ysgol, Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Trefaldwyn, i gynnal dau gyfnod hyfforddi pythefnos o hyd, gan weithio ar ddatblygu a pherfformio cynyrchiadau sy'n seiliedig ar operâu *The Cunning Little Vixen* a *The Little Prince*. |
| Prosiect Gardd Gerfluniau Abertyleri | EAS | Blaenau Gwent | £24,833 | Mae gwahanol brosiectau celfyddydol yn cael eu datblygu mewn ysgol sydd newydd ei sefydlu â 1500 o ddysgwyr, Cymuned Ddysgu Abertyleri, gyda'r nod o greu ymdeimlad ar y cyd o hunaniaeth ymysg y dysgwyr a'r athrawon. Mae Upbeat Music and Arts yn rhan o'r cydweithrediad hwn. |
| Theatr Arad Goch | ERW | Powys | £24,330 | Mae Ysgol Glantwymyn yn gweithio gyda chwmni Arad Goch, gyda chyfranogiad gan Ganolfan y Dechnoleg Amgen. Caiff cyfres o brosiectau creadigol eu cynnal yn yr ysgol, gan weithio gyda themâu ffermio a thechnoleg adeiladu, gan gyfuno'r dreftadaeth leol gydag ymchwil i dechnolegau newydd. |
| Motion Control Dance | Consortiwm Canolbarth y De | Bro Morgannwg | £7,993 | Cydweithrediad rhwng 4 ysgol gynradd ac 1 ysgol uwchradd yn ardal Cymunedau yn Gyntaf y Barri. Mae'r prosiect wedi'i seilio ar ddawns gyfranogol gyda'r nod o gefnogi llythrennedd a rhifedd ynghyd â gweithgarwch corfforol, ac i fynd i'r afael ag ymddieithrio posibl ymysg merched blynyddoedd 6 a 7. |
| Ysgol Awel y Mynydd | GwE | Conwy | £25,000 | Prosiect cydweithredol sy'n cynnwys 8 ysgol yng ngogledd Cymru i greu cerddorfa ukele aml-ysgol gan ddefnyddio cyfleoedd rhannu ffisegol a digidol, ac yn seiliedig ar brosiect dan arweiniad dysgwyr. |

| Enw'r ysgol neu sefydliad | Rhanbarth | Sir | Swm a dyfarnwyd | Manylion y Grant Cydweithio Creadigol |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Ysgolion William Mathias | GwE | Ynys Môn | £7,793 | Bydd y sefydliad celfyddydol yn gweithio gyda 6 ysgol gynradd ar Ynys Môn sy'n uno. Bydd hyfforddiant cerddorol wythnosol a gweithgareddau cymorth. |
| Cerddorfa Dinas Abertawe | ERW | Abertawe | £24,500 | Mae'r sefydliad yn gweithio gyda thair ysgol ac mewn cydweithrediad â sefydliadau celfyddydol/treftadaeth eraill yn Abertawe ar brosiectau aml-ddull celfyddydol yn seiliedig ar ymchwil i hunaniaeth amlddiwylliannol y rhan hon o Abertawe. |
| Cerddorion Ifanc Dyfed | ERW | Amrywiol | £25,000 | Mae'r prosiect wedi'i seilio ar ddatblygu sgiliau cyfansoddi ymysg dysgwyr mewn nifer o ysgolion ledled rhanbarth ERW, trwy brosiectau a gyflawnir ar draws y flwyddyn ysgol. |

# Atodiad 4
## Ysgolion sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen Ysgolion Creadigol Arweiniol


### Gogledd Cymru: rhanbarth consortiwm addysg GwE




| Rhif | Ysgol | Rhif | Ysgol | Rhif | Ysgol |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Ysgol Alexandra | 9 | Ysgol Gynradd Hafod y Wern | 17 | Ysgol Beddgelert |
| 2 | Ysgol Alun | 10 | Llandrillo yn Rhos | 18 | Ysgol Beuno Sant |
| 3 | Ysgol Gynradd Brychdyn | 11 | Ysgol Uwchradd Dewi Sant | 19 | Ysgol Bod Alaw |
| 4 | Ysgol Gynradd Brynteg | 12 | Ysgol Gynradd St Giles | 20 | Ysgol Borthygest |
| 5 | Canolfan Addysg Y Bont | 13 | Ysgol Victoria | 21 | Ysgol Bro Carmel |
| 6 | Ysgol Uwchradd Castell Alun | 14 | Ysgol Aberconwy | 22 | Ysgol Bro Cinmeirch |
| 7 | Ysgol Uwchradd Cei Connah | 15 | Ysgol Acrefair | 23 | Ysgol Bryn Alyn |
| 8 | Ysgol Uwchradd Elfed | 16 | Ysgol Ardudwy | 24 | Ysgol Bryn Collen |

| Rhif | Ysgol | Rhif | Ysgol | Rhif | Ysgol |
|---|---|---|---|---|---|
| 25 | Ysgol Bryn Deva | 40 | Ysgol Glan Clwyd | 55 | Ysgol Santes Gwenfaen |
| 26 | Ysgol Bryn Garth | 41 | Ysgol Gogarth | 56 | Ysgol Terrig |
| 27 | Ysgol Brynffordd | 42 | Ysgol Gwaun Gynfi | 57 | Ysgol Tir Morfa |
| 28 | Ysgol Cefn Coch | 43 | Ysgol Heulfan | 58 | Ysgol Treferthyr |
| 29 | Ysgol Clywedog | 44 | Ysgol Hiraddug | 59 | Ysgol Tudno |
| 30 | Ysgol Crud y Werin | 45 | Ysgol Licswm | 60 | Ysgol Uwchradd Bodedern |
| 31 | Ysgol Deganwy | 46 | Ysgol Llanddulas | 61 | Ysgol Uwchradd Caergybi |
| 32 | Ysgol Dinas Bran | 47 | Ysgol Llanystumdwy | 62 | Ysgol y Creuddyn |
| 33 | Ysgol Dolbadarn | 48 | Ysgol Maes Garmon | 63 | Ysgol y Faenol |
| 34 | Ysgol Dyffryn Conwy | 49 | Ysgol Maes Hyfryd | 64 | Ysgol y Gelli |
| 35 | Ysgol Eifion Wyn | 50 | Ysgol Min y Ddol | 65 | Ysgol y Gorlan |
| 36 | Ysgol Eifionydd | 51 | Ysgol Morgan Llwyd | 66 | Ysgol y Llan |
| 37 | Ysgol Emrys ap Iwan | 52 | Ysgol Pen Coch | 67 | Ysgol y Moelwyn |
| 38 | Ysgol Ffridd y Llyn | 53 | Ysgol Perth y Terfyn | | |
| 39 | Ysgol Garndolbenmaen | 54 | Ysgol Rhosnesni | | |


## Rhanbarth consortiwm addysg Canolbarth y De




| Rhif | Ysgol | Rhif | Ysgol | Rhif | Ysgol |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Ysgol Gynradd Alaw | 9 | Ysgol Gynradd Cogan | 17 | Ysgol Gymunedol Ferndale |
| 2 | Ysgol Uwchradd Gatholig Archesgob McGrath | 10 | Ysgol Gyfun y Bont Faen | 18 | Ysgol Uwchradd Fitzalan |
| 3 | Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Esgob Childs | 11 | Ysgol Gynradd Llangrallo | 19 | Ysgol Gynradd Garth |
| 4 | Ysgol Uwchradd yr Esgob Hedley | 12 | Ysgol Gynradd Croesty | 20 | Ysgol Gynradd Glyncoed |
| 5 | Ysgol Gyfun Bryn Hafren | 13 | Ysgol Fabanod Cwmaman | 21 | Ysgol Iau Glynhafod |
| 6 | Ysgol Gynradd Brynnau | 14 | Ysgol Uwchradd Cyfarthfa | 22 | Ysgol Arbennig Greenfield |
| 7 | Ysgol Gynradd Tregatwg | 15 | Ysgol Gyfun Cynffig | 23 | Ysgol Gynradd Gwaunmeisgyn |
| 8 | Ysgol Gynradd Coedpenmaen | 16 | Ysgol Gynradd Dolau | 24 | Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Gwenfô |

| Rhif | Ysgol | Rhif | Ysgol | Rhif | Ysgol |
|---|---|---|---|---|---|
| 25 | Ysgol Gynradd Hawthorne | 40 | Ysgol Gynradd Romilly | 55 | Ysgol Gynradd Gymunedol Troedyrhiw |
| 26 | Ysgol Gynradd Kitchener | 41 | Ysgol Gynradd Rhymni | 56 | Ysgol Ty Gwyn |
| 27 | Ysgol Gynradd Llanharan | 42 | Ysgol Gynradd Severn | 57 | Ysgol Gynradd West Park |
| 28 | Ysgol Gynradd Llantrisant | 43 | Ysgol Gynradd Springwood | 58 | Ysgol Gynradd yr Eglwys Newydd |
| 29 | Ysgol Arbennig Maesgwyn | 44 | Ysgol Gynradd Sain Tathan | 59 | Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd |
| 30 | Ysgol Gynradd Meisgyn | 45 | Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Dewi Sant | 60 | Ysgol Gyfun Rhydywaun |
| 31 | Ysgol Gynradd Oldcastle | 46 | Ysgol Gynradd Gatholig Joseff Sant | 61 | Ysgol Gymraeg Evan James |
| 32 | Ysgol Arbennig Park Lane | 47 | Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair a’r Sant Padrig | 62 | Ysgol Gymraeg Pwll Coch |
| 33 | Ysgol Uwchradd Pen Y Dre | 48 | Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llaneirwg | 63 | Ysgol Gynradd Gymraeg Cynwyd Sant |
| 34 | Ysgol Gynradd Pencoed | 49 | Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Paul | 64 | Ysgol Iolo Morgannwg |
| 35 | Ysgol Gynradd Penrhiwceiber | 50 | Ysgol Stanwell | 65 | Ysgol Ty Coch |
| 36 | Ysgol Gynradd Peter Lea | 51 | Ysgol Gynradd Sili | 66 | Ysgol Y Berllan Deg |
| 37 | Ysgol Uwchradd Pontypridd | 52 | Ysgol Gynradd Thornhill | 67 | Ysgol y Wern |
| 38 | Ysgol Gymunedol Sirol y Porth | 53 | Ysgol Gynradd Ton-Yr-Ywen | | |
| 39 | Ysgol Gynradd y Rhws | 54 | Ysgol Gyfun Treorci | | |


## De ddwyrain Cymru: rhanbarth consortiwm addysg EAS




| Rhif | Ysgol | Rhif | Ysgol | Rhif | Ysgol |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Ysgol Abersychan | 9 | Cynghrair Cynradd Cas-gwent – Ysgol Gynradd Pembroke | 17 | Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr |
| 2 | Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Archesgob Rowan Williams | 10 | Ysgol Gynradd Coed Efa | 18 | Ysgol Gynradd Eveswell |
| 3 | Ysgol Uwchradd Bedwas | 11 | Ysgol Gynradd Coed y Garn | 19 | Ysgol Gynradd Garnteg |
| 4 | Ysgol Gynradd Bedwas | 12 | Ysgol Gynradd Crindau | 20 | Ysgol Gynradd Gilfach Fargod |
| 5 | Ysgol Gyfun Coed Duon | 13 | Ysgol Fabanod Cwmaber | 21 | Ysgol Gynradd Gilwern |
| 6 | Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Treftadaeth Blaenafon | 14 | Ysgol Gynradd Cwmffrwdoer | 22 | Ysgol Gynradd Glasllwch |
| 7 | Ysgol Gynradd Bryn | 15 | Ysgol Gynradd Deighton | 23 | Ysgol Gynradd Graig y Rhaca |
| 8 | Ysgol Sylfaen Brynmawr | 16 | Ysgol Gynradd Durand | 24 | Ysgol Gynradd Greenhill |

| Rhif | Ysgol | Rhif | Ysgol | Rhif | Ysgol |
|---|---|---|---|---|---|
| 25 | Ysgol Iau Hendre | 36 | Ysgol Gynradd Monnow | 47 | Ysgol Gynradd St Woolos |
| 26 | Ysgol Gynradd Langstone | 37 | Ysgol Uwchradd Casnewydd | 48 | Ysgol Gynradd Thornwell |
| 27 | Ysgol Lewis Pengam | 38 | Ysgol Gynradd Gatholig Our Lady of the Angels | 49 | Ysgol Gynradd Trinant |
| 28 | Ysgol Iau Llancaiach | 39 | Ysgol Gynradd Gymunedol Penygarn | 50 | Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod |
| 29 | Ysgol Uwchradd Llysweri | 40 | Ysgol Gynradd Plas y Felin | 51 | Ysgol Twyn |
| 30 | Ysgol Gynradd Machen | 41 | Ysgol Gynradd Tŷ-du | 52 | Ysgol Gynradd Gwndy |
| 31 | Ysgol Gynradd Maendy | 42 | Ysgol Gynradd Shirenewton | 53 | Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Brynbuga |
| 32 | Ysgol Gynradd Maes-y-cwmwr | 43 | Ysgol Gynradd Swffryd | 54 | Ysgol Gynradd Victoria |
| 33 | Ysgol Fabanod yr Eglwys yng Nghymru Malpas | 44 | Ysgol Gymunedol Sant Cenydd | 55 | Ysgol Gyfun Cwm Rhymni |
| 34 | Ysgol Gynradd Millbrook | 45 | Ysgol St Gwladys Bargod | 56 | Ysgol Gynradd Ystrad Mynach |
| 35 | Ysgol Fabanod Milton | 46 | Ysgol Martin Sant | | |

## Gorllewin a Chanolbarth Cymru: rhanbarth consortiwm addysg ERW




| Rhif | Ysgol | Rhif | Ysgol | Rhif | Ysgol |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Ysgol Gynradd Abermiwl | 9 | Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed | 17 | Ysgol Gynradd Pontffranc |
| 2 | Ysgol Gynradd Henadur Davies yr Eglwys yng Nghymru | 10 | Ysgol Gyfun Cefn Saeson | 18 | Glan Y Môr |
| 3 | Ysgol Gynradd Bigyn | 11 | Ysgol Gynradd y Clas | 19 | Ysgol Gyfun Tregŵyr |
| 4 | Ysgol Uwchradd Gatholig Esgob Vaughan | 12 | Ysgol Coedcae | 20 | Ysgol Gynradd Tregŵyr |
| 5 | Ysgol Bryngwyn | 13 | Ysgol Gynradd Gymunedol Cradoc | 21 | Ysgol Uwchradd Gwernyfed |
| 6 | Ysgol Uwchradd Llanfair ym Muallt | 14 | Ysgol Uwchradd Crughywel | 22 | Ysgol Gynradd Halfway |
| 7 | Ysgol Gynradd Gymunedol Porth Tywyn | 15 | Ysgol Gynradd Dyffryn Trannon | 23 | Ysgol Gynradd Llandinam |
| 8 | Ysgol Gynradd Caersws | 16 | Ysgol Gynradd Gymunedol Fenton | 24 | Ysgol Uwchradd Llanfyllin |

| Rhif | Ysgol | Rhif | Ysgol | Rhif | Ysgol |
|---|---|---|---|---|---|
| 25 | Ysgol Uwchradd Llanidloes | 47 | Ysgol Gynradd Gymunedol Townhill | 69 | Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn |
| 26 | Ysgol Gynradd Llanidloes | 48 | Ysgol Gynradd Waunarlwydd | 70 | Ysgol Gymraeg Pontardawe |
| 27 | Ysgol Gynradd Llanrhidian | 49 | Ysgol Gynradd Waunceirch | 71 | Ysgol Gymunedol Aberbanc |
| 28 | Ysgol Gynradd Maes y Morfa | 50 | Ysgol Bro Banw | 72 | Ysgol Gymunedol Coedybryn |
| 29 | Ysgol Fabanod a Meithrin The Meads | 51 | Ysgol Bro Dinefwr | 73 | Ysgol Gymunedol Cwrtnewydd |
| 30 | Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Bontnewydd | 52 | Ysgol Bro Pedr | 74 | Ysgol Gymunedol Llandysul |
| 31 | Ysgol Hen Heol | 53 | Ysgol Bro Tawe | 75 | Ysgol Gymunedol Peniel |
| 32 | Ysgol Gynradd Gymunedol Pen-bre | 54 | Ysgol Bryn Teg | 76 | Ysgol Gymunedol Pontsian |
| 33 | Ysgol Gyfun Penfro | 55 | Ysgol Cedewain | 77 | Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynderw |
| 34 | Ysgol Gynradd Gymunedol Doc Penfro | 56 | Ysgol Crug Glas | 78 | Ysgol Heol Goffa |
| 35 | Ysgol Gynradd Pen y Fro | 57 | Ysgol Dyffryn Aman | 79 | Ysgol Llanwenog |
| 36 | Ysgol Gynradd Penclawdd | 58 | Ysgol Dyffryn Taf | 80 | Ysgol Llanwnnen |
| 37 | Ysgol Gynradd Pennard | 59 | Ysgol Dyffryn Teifi | 81 | Ysgol Maesydderwen |
| 38 | Ysgol Gyfun Pontarddulais | 60 | Ysgol Feithrin Rhydaman | 82 | Ysgol Penglais |
| 39 | Ysgol Gynradd Pontybrenin | 61 | Ysgol Golwg y Cwm | 83 | Ysgol Rhos Helyg |
| 40 | Ysgol Portfield | 62 | Ysgol Gyfun Gŵyr | 84 | Ysgol Uwchradd Caereinion |
| 41 | Ysgol Gyfun y Frenhines Elizabeth Cambria | 63 | Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin | 85 | Ysgol Y Bedol |
| 42 | Ysgol Arbennig Rhydygors | 64 | Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe | 86 | Ysgol Y Cribarth |
| 43 | Ysgol Gynradd Gatholig Illtud Sant | 65 | Ysgol Gyfun Ystalyfera | 87 | Ysgol Y Dderi |
| 44 | Ysgol Gynradd Gadeiriol San Joseff | 66 | Ysgol Gymraeg Brynsierfel | 88 | Ysgol y Preseli |
| 45 | Ysgol Gynradd Gatholig San Joseff | 67 | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | | |
| 46 | Ysgol Gynradd Stebonheath | 68 | Ysgol Gymraeg Ffwrnes | | |

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Ariennir yn Rhannol gan
**Lywodraeth Cymru**
Part Funded by
**Welsh Government**

ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED